**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 25 Chwefror 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 2 Mawrth 2021 |
| *(Cyflwynir y Daflen hon fel penderfyniad brys yn unol â rhan 14.15.(c) o'r Cyfansoddiad y dylid ei heithrio o'r drefn galw er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru cyflwyno pleidleisiau cyn y dyddiad cau. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ei fod yn cytuno ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynnigir yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau.)* | |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

**PWNC Ardal Gwella Busnes (AGB) Bangor Arfaethedig – Pleidleisiau Cyngor Gwynedd**

**PENDERFYNIAD –Ardal Gwella Busnes (AGB) Bangor Arfaethedig – Pleidleisiau Cyngor Gwynedd**

Fod Cyngor Gwynedd yn dychwelyd ei holl bleidleisiau o blaid cynigion Ardal Gwella Busnes Bangor.

2. Awdurdodi Pennaeth Economi a Chymuned i arwyddo'r papur a chyflwyno'r pleidleisiau erbyn 11eg o Fawrth 2021.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TESTUN : Ardal Gwella Busnes (AGB) Bangor Arfaethedig – Pleidleisiau Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet : | Y Cyng. Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Esyllt Rhys Jones<br>Rheolwr Rhaglenni Adfywio |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 25 Chwefror 2021 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : |  |

PENDERFYNIAD

1. Fod Cyngor Gwynedd yn dychwelyd ei holl bleidleisiau o blaid cynigion Ardal Gwella Busnes Bangor.

2. Awdurdodi Pennaeth Economi a Chymuned i arwyddo'r papur a chyflwyno'r pleidleisiau erbyn 11eg o Fawrth 2021.

*(Cyflwynir y Daflen fel penderfyniad brys yn unol â rhan 14.15.(c) o'r Cyfansoddiad y dylid ei heithrio o'r drefn galw er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru cyflwyno pleidleisiau cyn y dyddiad cau. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ei fod yn cytuno ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynnigir yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau.)*

**Rheswm Mae Angen Penderfyniad**

Yn dilyn pleidlais lwyddiannus, yn ôl yn 2015, sefydlwyd Ardal Gwella Busnes Bangor yn Ebrill 2016. Sefydlwyd cwmni AGB Bangor i weithredu'r AGB. Yn unol â Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005 dim ond am gyfnod o 5 mlynedd mae AGB yn weithredol ac mae'n ofynnol dilyn proses debyg eto ar gyfer tymor arall. Y sefyllfa bresennol yw bod tymor AGB Bangor yn dirwyn i ben 31 Mawrth 2021

Yng nghyfarfod o'r Cabinet 15 Rhagfyr 2020 penderfynwyd datgan cefnogaeth i gynnal pleidlais ar y cynigion a dderbyniwyd gan gwmni AGB Bangor ar gyfer ail dymor o Ardal Gwella Busnes (AGB). Yn ystod y cyfarfod hwn dirprwywyd yr hawl i Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned fod a chyfrifoldeb dros bleidleisio ar ran Cyngor Gwynedd. Bydd y pleidleisiau yn cau ar 11eg o Fawrth ym Mangor.

Mae gan y Cyngor rôl ddeuol o fewn yr Ardaloedd Gwella Busnes. Tra mae'r Cyngor yn casglu'r ardoll mae hefyd yn drethdalwr annomestig yn y ddinas.

Mae gan Gyngor Gwynedd, fel trethdalwr trethi annomestig bleidlais ar gyfer bob un o'u heiddo. Yn Mangor mae eiddo Cyngor Gwynedd yn gymysg o feysydd parcio, swyddfeydd, neuaddau a toiledau cyhoeddus. Mae'r rhain i gyd yn gynwysedig o fewn yr AGB arfaethedig.

Pe sefydlir AGB, byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu'r ardoll ychwanegol am eiddo annomestig ym mherchnogaeth y Cyngor o fewn finiau'r AGB e.e. ar sail ardoll o 1.5%, rhagwelir y byddai cost ychwanegol o tua £2,946.75 y flwyddyn ym Mangor.

Mae Ardaloedd Gwella Busnes yn cael eu cydnabod fel cerbyd adfywio lleol sydd yn ymateb yn uniongyrchol i heriau economaidd ac amgylcheddol cymunedau busnes canol trefi. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i'r model hyn o weithio ac wedi cefnogi Awdurdodau Lleol dros y blynyddoedd diwethaf i'w sefydlu ac i'w cefnogi. Cant eu gweld gan Lywodraeth Cymru fel rhan allweddol o'r broses adfywio yng nghyd-destun eu Rhaglenni Buddsoddiad Adfywio.

Mae Adran Economi a Chymuned y Cyngor hefyd yn gefnogol i Ardaloedd Gwella Busnes fel sefydliad sydd a'r gallu o yrru agenda adfywio o fewn trefi gan symbylu datblygiadau economaidd lleol. Mae'r buddsoddiad mae'r busnesau yn ei wneud drwy dalu y lefi yn sicrhau fod modd mynd i'r afael a materion pwysig o fewn y gymuned fusnes a bod perchnogaeth leol i geisio ymdrechu i wneud Bangor yn ganolfannau mwy ffyniannus.

**Amserlen berthnasol:**

Bydd pleidlais AGB Bangor yn cau 11eg o Fawrth 2021.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

1. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

2. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad i daro pleidleisiau'r Cyngor o blaid parhau'r Ardal Gwella Busnes am pum mlynedd pellach oherwydd y budd o ran adfywio lleol sydd yn ymateb yn uniongyrchol i heriau economaidd ac amgylcheddol cymunedau busnes canol trefi. Mae cyllideb yn ei le ar gyfer talu'r lefi blynyddol y Cyngor petai canlyniad y bleidlais o blaid parhau.

BARN YR AELOD LLEOL

Dim yn briodol